EISTEDDFOD

Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus Eisteddfod Genedlaethol Cymru

## Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau staff, Bwrdd Rheoli, Cyngor, Llys, pwyllgorau canolog a lleol, gweithwyr llawrydd, cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion, gwirfoddolwyr, perfformwyr ac artistiaid sy'n ymwneud â'r Eisteddfod.

Mae'r Eisteddfod wedi ymrwymo i fod yn ŵyl gynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaeth yn ei holl weithgareddau a gweithdrefnau, ac i sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw un ar sail anabledd, cefndir, cred, crefydd, hil, oedran, rhyw, rhywedd na rhywioldeb (Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod, 2022).

Mae'r Eisteddfod hefyd yn ymrwymedig i sicrhau amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg[1] neu fregus, gan gredu ei fod yn gwbl annerbyniol i blentyn, person ifanc neu oedolyn bregus gael profiad o gamdriniaeth o unrhyw fath.

Mae staff, Bwrdd Rheoli, Cyngor, Llys, pwyllgorau canolog a lleol, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr yr Eisteddfod yn derbyn a chydnabod cynnwys y polisi hwn, ynghyd â'u cyfrifoldeb i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r hyn a all achosi niwed.

Bydd yr Eisteddfod yn ceisio diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus drwy:

- fabwysiadu canllawiau diogelu plant drwy weithdrefnau ac arferion gwaith diogel i staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr;
- recriwtio a dethol staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr yn ddiogel, gan sicrhau y gwneir yr holl wiriadau angenrheidiol ac ystyried unrhyw newidiadau yng ngofynion y DBS;
- rannu gwybodaeth am bryderon gydag asiantaethau perthnasol, a chynnwys oedolion, rhieni, gofalwyr a phlant fel bo'n briodol;
- rannu gwybodaeth am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus ynghyd ag arfer dda gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn;
- ddarparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr drwy oruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant;
- benodi aelod o staff ac aelod o'r Bwrdd Rheoli i fod yn gyfrifol am faterion diogelu, gan ddilyn canllawiau Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a nodir yma, https://diogelu.cymru/cy/;
- roi gwybod i staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr pwy yw'r personau dynodedig, a'u hannog i rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt am blant, pobl ifanc a / neu oedolion bregus, gan gynnwys ymddygiad amhriodol neu amhroffesiynol.

## Adolygu'r polisi

Bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol neu ynghynt yng ngoleuni unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu ganllawiau arferion da.

---

[1] Diffinir y term 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel:
Oedolyn sydd:

1. yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso,
2. ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), ac
3. o ganlyniad i'r anghenion hynny, ni all amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r risg ohono.

## Manylion cyswllt

Aelod staff ac aelod Bwrdd Rheoli dynodedig diogelu Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw:

**Staff:** (a) Steffan Prys (Rheolwr Cystadlu) steffan@eisteddfod.cymru | 07961 417 549 / (b) Gwenllïan Carr (Cyfarwyddwr Strategol gwenllian@eisteddfod.cymru | 07825 241 149

**Bwrdd Rheoli:** Ashok Ahir cadeirydd@eisteddfod.cymru

Dylid cysylltu â'r aelod staff dynodedig yn y lle cyntaf, oni bai fod y pryderon diogelu yn ymwneud ag aelod o staff.

Bydd yr aelod staff dynodedig yn cadw golwg ar ddatblygiadau mewn arfer dda a diogelu, e.e. https://diogelu.cymru/cy a https://www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu

Bydd disgwyl i'r aelod staff dynodedig a'r aelod Bwrdd Rheoli dynodedig dderbyn yr hyfforddiant Lefel 2 priodol ar gyfer delio gyda phlant, pobl ifanc a / neu oedolion bregus.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dilyn canllawiau wrth adnabod arwyddion a dangosyddion posibl o gamdriniaeth ac esgeulustod mewn plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

## Rhoi gwybod am gamdriniaeth neu amheuaeth o gam-drin

Os yw aelod o staff, gweithiwr llawrydd neu wirfoddolwr gyda'r Eisteddfod yn pryderu fod person wedi'i gam-drin, dylai drafod y mater gyda'r aelod staff dynodedig a enwir uchod, a fydd yn trafod ymhellach gyda'r aelod dynodedig o'r Bwrdd Rheoli.

Bydd yr Eisteddfod yn darparu ffurflen adrodd benodedig i gofnodi pob digwyddiad o bryder, a dylid cwblhau'r ffurflen hon cyn gynted â phosibl, ac o fewn 24 awr i'r digwyddiad.  Bydd yr aelod staff yn hysbysu pawb sy'n destun adroddiad diogelu am y cama y mae'r Eisteddfod yn eu cymryd ynghylch eu diogelu a'r holl gamau dilynol.

## Honiadau yn erbyn staff, gweithwyr llawrydd neu wirfoddolwyr yr Eisteddfod

Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus yn gwneud honiad o gam-drin yn erbyn aelod o staff, gweithiwr llawrydd, gwirfoddolwr, neu unrhyw un sy'n ymwneud â'r Eisteddfod a'i gweithdrefnau, wrth unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod, mae angen i'r person hwnnw gysylltu â'r aelod staff dynodedig neu Brif Weithredwr yr Eisteddfod cyn gynted â phosibl, a chofnodi'r wybodaeth yn ysgrifenedig gan ddefnyddio geiriau'r person sy'n gwneud yr honiad.  Rhaid llofnodi a dyddio'r cofnod. Byddwn yn dilyn y canllawiau hyn wrth ddelio gyda honiad gan blentyn neu berson ifanc, ac yn dilyn y canllawiau yma wrth ddelio gyda honiad gan oedolyn bregus.

## Pryderu am ymddygiad cydweithiwr, gweithiwr llawrydd neu wirfoddolwr

Os yw aelod o staff, gweithiwr llawrydd neu wirfoddolwr yn pryderu am ymddygiad cydweithiwr yng nghyd-destun gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus, mae angen trafod eu pryderon gyda'r aelod staff dynodedig, yn gwbl gyfrinachol.  Bydd yr aelod staff yn trafod ymhellach gyda'r aelod dynodedig o'r Bwrdd Rheoli a phenderfynu ar gamau dilynol.  Bydd disgwyl i'r sefydliad sicrhau na fydd mynegi pryder yn arwain at unrhyw ôl-effeithiau negyddol yn ddiweddarach, hyd yn oed os penderfynir fod yr honiadau yn ddi-sail.

EISTEDDFOD

## Trefnu gweithgareddau yn y gymuned ac wrth baratoi ar gyfer yr ŵyl

Mae'r Eisteddfod yn cynnal nifer o weithgareddau allymestyn yn y gymuned ac yn trefnu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus i fod yn rhan o ddigwyddiadau yn ystod yr ŵyl. Bydd staff yn cynnal asesiad risg ar bob gweithgaredd i sicrhau diogelwch y cyfranogwyr a sicrhau bod ein gweithgareddau yn hygyrch i bob plentyn ag anghenion gofal a chymorth sy'n awyddus i gymryd rhan. Byddwn yn sicrhau bod digon o staff ar gael i ofalu am blant, pobl ifanc a / neu oedolion bregus. Ar hyn o bryd, mae'r NSPCC yn argymell y cymarebau canlynol:

- Un oedolyn i dri o blant rhwng 0 a 2 oed;
- Un oedolyn i bedwar o blant rhwng 2 a 3 oed;
- Un oedolyn i chwech o blant rhwng 4 ac 8 oed;
- Un oedolyn i wyth o blant rhwng 9 a 12 oed;
- Un oedolyn i ddeg o blant rhwng 13 a 18 oed.

Ni chaniateir i unrhyw blentyn, person ifanc a / neu oedolyn bregus adael lleoliad gweithgaredd ar unrhyw adeg, ac eithrio pan fydd rhiant, gofalwr neu weithiwr cefnogol neu gynrychiolydd awdurdodedig penodol o'r Eisteddfod Genedlaethol gyda nhw. Rhaid i unrhyw un sydd angen gadael cyn diwedd y gweithgaredd heb oedolyn priodol yn gwmni iddynt gael caniatâd ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad.

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau i gyd yn cydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch yr Eisteddfod (copi ar gael drwy gysylltu â'r aelod staff diogelu dynodedig).

Byddwn hefyd yn gofyn i rieni | gofalwyr plant, pobl ifanc a / neu oedolion bregus ddarparu enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r unigolyn i'r Eisteddfod, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw anghenion meddygol neu ddysgu ac enw rhiant neu ofalwr a rhifau cyswllt brys. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei ddefnyddio mewn argyfwng yn unig.

## Wythnos yr Eisteddfod

Bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dilyn y gweithdrefnau canlynol i greu gwyliau mwy diogel i bawb:

Bydd holl stiwardiaid yr Eisteddfod yn gwisgo bathodyn enw a siaced gwelededd uchel. Gofynnir i holl athrawon | rhieni | gwarchodwyr | gofalwyr roi gwybod am bob achos o unrhyw fath i un o'r tîm stiwardio, a fydd yn hysbysu'r aelod staff dynodedig

Am gyfnod gŵyl yr Eisteddfod mae holl athrawon | rhieni | gwarchodwyr | gofalwyr yn gyfrifol am ofal parhaus a goruchwyliaeth eu plant | disgyblion | oedolion bregus eu hunain. Os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol yn bersonol, mae'n rhaid iddynt ddirprwyo eu cyfrifoldebau i oedolyn gan sicrhau bod eu plant | disgyblion | oedolion bregus yn adnabod y person sy'n gyfrifol am eu gofal. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth ymhob lleoliad, perfformiad ac ardaloedd ymarfer a ddarperir gan yr Eisteddfod.

Ni chaniateir ffotograffiaeth neu ffilmio heb awdurdod Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu'r Eisteddfod, lliwen@eisteddfod.cymru

Ni chaniateir i neb - rhieni, cystadleuwyr nac aelodau eraill o'r gynulleidfa dynnu lluniau na ffilmio plant, ac eithrio perfformiadau sydd yn ymwneud â'u plant eu hunain. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddefnydd ohonynt ar wefannau cymdeithasol. Os oes gennych unrhyw ymholiad neu bryder cysylltwch gydag aelod o'r tîm stiwardio.

Lle nad yw rhieni | gwarchodwyr | gofalwyr yn dymuno i luniau gael eu tynnu o gwbl, yna cyfrifoldeb yr oedolyn mewn gofal yw sicrhau nad yw eu plentyn | disgybl | oedolyn bregus yn cael eu cynnwys mewn lluniau awdurdodedig swyddogol, a gellir gwneud hynny drwy sôn wrth y ffotograffydd. Bydd ffotograffwyr swyddogol yr Eisteddfod i gyd yn gwisgo cerdyn adnabod, a byddant yn fodlon ei ddangos i unrhyw un sy'n eu holi.

Gall rhai plant ac oedolion bregus fod ag anghenion penodol er mwyn gallu cymryd rhan. Os yw hyn yn wir yr ydym yn gofyn i'r athrawon | rhieni | gwarchodwyr | gofalwyr cyfrifol i gysylltu â'r Eisteddfod cyn cyrraedd.

Byddwn yn gwneud popeth rhesymol i ddiwallu'r anghenion hyn, ond rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn paratoi cefnogaeth - neu i gynghori mewn amgylchiadau eithriadol nad oes modd darparu'r cymorth angenrheidiol.

Pasiwyd y polisi: Mehefin 2017
Adolygwyd ddiwethaf: Ebrill 2024